# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 15/09/2026 |
| **Pwnc:** | Newid i gasgliadau ailgylchu a gwastraff |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Cynghorydd Ieuan Williams | Aelod portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Huw Percy | Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Byddai cyflwyno newid sylweddol i'r trefniadau casglu ailgylchu a gwastraff yn effeithio ar pob cartref ac yn golygu buddsoddiad sydd tu hwnt i'r hyn mae Swyddogion yn medru awdurdodi.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☐Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1. Parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith pob 3 wythnos ond drwy gasglu biniau du 180 litr newydd, yn hytrach na'r biniau 240litr presennol, o 2029.
2. Creu mwy o ofod ar gyfer ailgylchu erbyn 2029 drwy:
   a. gasglu cardfwrdd a phapur gyda'u gilydd yn y bocs top y trolibocs.
   b. gynnig opsiynau storio ychwanegol ar gyfer ailgylchu cardfwrdd ac/ neu plastig caled a chaniau ychwanegol
3. Cyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio.
4. Cynnal ymchwil i ymestyn y deunydd sy'n cael ei gasglu i'w ailgylchu i gynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill.
5. Symud ymlaen i ddatblygu a cyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid i Llywodraeth Cymru.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Yr unig ffordd i gau y bwlch rhwng y rwymedigaeth statudol a'r cyfradd ailgylchu presennol yw lleihau'r cyfaint gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu. Mae hyn yn cyd fynd gyda amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28 mewn perthynas â Newid Hinsawdd, y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024-2029, y Cynllun Strategol Sero Net, a gofyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Allbwn yr ymgynghoriad.
2. Y dull o gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%.
3. Oblygiadau ariannol o beidio cael cynllun i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%, gan gynnwys yr angen i gyllido gwaith gwerth £10-£12m o welliannau i gadw'r canolfannau ailgylchu yn weithredol heb grant gan Llywodraeth Cymru.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**Cefndir:**

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 a Chynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu y Cyngor. yn ymrwymo i sefydlu cyfradd ailgylchu gwastraff cartref o 70%. Gall methu â chyrraedd targedau ailgylchu arwain at ddirwy gan Lywodraeth Cymru o £200 y tunnell am pob tunnell o dan y targed.

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Glasbrint Casgliadau yn 2025 sy'n argymell cyfyngu casgliad gwastraff gweddilliol i 60l yr wythnos. Mae hyn yn cyd-fynd â prif argymhelliad WRAP Cymru ar sut gall y Cyngor gyrraedd y targed o 70%.

1.3 65% oedd cyfradd ailgylchu Ynys Môn ar gyfer 2024/25 ac mae'n ymddengys fod cyfradd 2025/26 ychydig yn is. Pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu dirwyo'r Cyngor am beidio a chyrraedd y targed yn 2024/25 a 2025/26 byddai'r dirwy tua £800k. Bu'r Llywodraeth Cymru blaenorol nodi eu bod yn ystyried cynlluniau Awdurdodau Lleol ar gyfer cyrraedd y targed fel sail i benderfynu os yw'n addas dirwyo ac fel sail i gynnig grantiau i gyflwyno newidiadau i gyrraedd y targed. Yn ddiweddar mae'r Gweinidog presennol wedi ysgrifennu mewn ffordd tebyg at yr Arweinydd mewn perthynas a methiant y Cyngor i gyrraedd targed 2024/25.

1.4 Yn Ionawr a Chwefror 2026 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 'Newidiadau Posib i Wasanaeth Casglu Ailgylchu a Gwastraff ar Ynys Môn. Derbyniwyd dros 4,000 o ymatebion o led led yr Ynys. Mae'r adroddiad llawn o allbwn yr ymgynghoriad i weld yn Atodiad 1 ond dyma grynodeb:

- 65% o’r ymatebion o aelwydydd o 3 neu llai o bobl
- 4% o’r ymatebion o aelwydydd o 6 neu fwy, sef y rhai sydd â hawl i fin mwy (360l ar hyn o bryd)
- 64% o’r ymatebion wedi eu cwblhau gan unigolion rhwng 35 a 64 oed.
- 76% yn cytuno’n gryf/ cytuno bod cyflawni’r targed ailgylchu ar Ynys Môn yn bwysig.
- 60% yn cytuno yn gryf/ cytuno bod ailgylchu gartref yn hawdd ond 24% yn anghytuno/ anghytuno’n gryf.
- 80% yn gwrthwynebu’n gryf/ gwrthwynebu newid y casgliadau biniau du o bob 3 wythnos i bob 4 wythnos.
- 69% yn cytuno’n gryf/ cytuno y byddai opsiynau storio ychwanegol yn eu helpu i ailgylchu mwy gyda 23% yn nodi bod cynwysyddion gwastraff yn rhy fach
- Dadansoddiad o ddefnydd y trolibocs a’r biniau ailgylchu bwyd a du:

| | Blwch Uchaf (papur) | Blwch canol (plastig, caniau) | Blwch gwaelod (gwydr, cardfwrdd) | Bin bwyd | Bin du |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim ateb | 0% | 0% | 0% | 1% | 0% |
| Llawn cyn diwrnod casglu | 18% | 51% | 53% | 15% | 51% |
| Llawn | 11% | 30% | 29% | 23% | 25% |
| Tri chwarter llawn | 9% | 10% | 9% | 14% | 12% |
| Hanner Llawn | 16% | 6% | 5% | 14% | 8% |
| Chwarter llawn neu lai | 34% | 1% | 2% | 6% | 4% |
| Dim yn ei ddefnyddio | 11% | 1% | 1% | 27% | 0% |

- 8% am weld mwy o ddeunyddiau ailgylchu ychwanegol (e.e. plastig meddal) yn cael eu casglu wrth y stepen drws.

**Rhesymau dros yr argymhellion**:

2.1 76% yn cytuno bod cyrraedd y targed ailgylchu o 70% yn bwysig. Yr unig ffordd i gau y bwlch presennol o tua 5% yw lleihau’r cyfaint gwastraff gweddilliol sy’n cael ei gasglu. Mae hyn yn cyd fynd gyda amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28 mewn perthynas a Newid Hinsawdd, y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024-2029, y Cynllun Strategol Sero Net, a gofyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i greu Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

2.2 Mae dau opsiwn i leihau’r cyfaint gwastraff gweddilliol sydd cael ei anfon i gyfleuster Ynni o Wastraff, Barc Adfer, sef casglu yn llai aml, neu cyfyngu faint sy’n cael ei gasglu. Mae Swyddogion Rheoli Gwastraff a’r contractwr casglu yn ffafrio casglu yn llai aml. Mae’r gwaith modelu cychwynnol yn cadarnhau bod modd symud staff casglu gwastraff gweddilliol i’r gwasanaeth ailgylchu os am newid amlder y casglu i bob 4 wythnos, ac mae hyn hefyd yn osgoi’r angen i fuddsoddi tua £1.1M am finiau 180l newydd a chael gwared o’r hen finiau. Ond gan fod 80% yn gwrthwynebu newid amlder casglu’r bin du, yr argymhelliad yw i leihau’r cyfaint a pharhau i gasglu’r bin du pob 3 wythnos ond darparu biniau du llai.  Mi fyddai’r hen finiau yn cael eu ailgylchu drwy gyfuniad o gael

eu ail pwrpasu ac eu torri fynnu i greu deunydd newydd yn yr un modd a plastig caled arall.

2.3 Os yw cyfaint y gwastraff gweddilliol yn cael ei leihau, mae'n hanfodol cynyddu'r gofod sydd ar gael ar gyfer ailgylchu. Mae hyn yn cyd-fynd gyda 69% o'r ymatebion a nododd eu bod yn cytuno y byddai opsiynau storio ychwanegol yn eu helpu i ailgylchu mwy. Byddai darparu cynhwysyddion ychwanegol ar gyfer cardfwrdd a papur ac / neu caniau a plastig yn rhoi mwy o ofod ailgylchu i'r aelwydydd sy'n dymuno eu derbyn.

2.4 Drwy gyflwyno mwy o gyfleon i ailgylchu gall cyfaint y gwastraff a all gael ei ailgylchu, ond sy'n cael ei rhoi'n y bin du, leihau. Mae sawl Cyngor yng Nghymru wedi cadarnhau bod o'u profiad nhw mae lleihau cyfaint y bin du wedi arwain at drigolion ailgylchu mwy a bod trigolion yn addasu'n sydyn i'r newid. Mae cyfyngu ar y cyfaint gwastraff gweddilliol hefyd yn arwain at fwy o ailgylchu bwyd, sydd ar lefel isel ym Môn ar hyn o bryd.

2.5 76% wedi nodi bod eu bin du yn llawn ar neu cyn diwrnod casglu ond mae ymchwil yn nodi bod bosib ailgylchu 80% o wastraff y cartref. Yn ôl ymchwil i gyfansoddiad gwastraff Ynys Môn mae'r bin du yn cynnwys 16% o ailgylchu sych, 27% gwastraff bwyd, 2% gwastraff gwyrdd a 7% o ddeunyddiau a all gael eu hailgylchu drwy'r canolfannau ailgylchu. Mae hyn yn awgrymu bod trigolion ddim yn ailgylchu popeth y gallent.

2.6 80% yn nodi fod bocs canol (caniau a plastig) ac / neu waelod (gwydr a cardbord) yn llawn ar neu cyn ddiwrnod casglu, a dim ond 29% yn nodi bod eu bocs top (papur) yn llawn ar neu cyn diwrnod caglu. Gall casglu papur a chardfwrdd gyda'u gilydd yn y bocs top wneud gwell ddefnydd o'r gofod sydd ar gael yn y trolibocs ac hefyd gwneud casglu'n haws i'r contractwr casglu gan bod dim rhaid iddynt wahanu'r cardfwrdd a'r gwydr. Ni fyddai casglu papur a chardfwrdd gyda'u gilydd yn cael effaith sylweddol ar y pris mae'r Cyngor yn dderbyn wrth eu gwerthu'n eu blaen.

2.7 Fel a nodwyd eisoes, mae ymchwil yn awgrymu bod trigolion ddim yn ailgylchu popeth y gallent. Drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth trigolion ar gyfer ailgylchu gall cyfaint y gwastraff a all gail ei ailgylchu, ond sy'n cael ei rhoi'n y bin du leihau. Mae'r 27% a nododd nad ydynt yn defnyddio'r bin bwyd yn enghraifft o lle gall ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth trigolion gael effaith ar y cyfradd ailgylchu.

2.8 8% am weld mwy o ddeunyddiau (e.e. batris, tecstilau a plastig meddal) yn cael eu casglu wrth y stepen drws. Mae Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru 2025 yn nodi'r angen i ystyried y gofyniad arfaethedig y pecyn Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (pEPR) i gasglu plastig meddal wrth y stepen drws o 2027 ymlaen. Ystyrir

yn amserol felly i ymchwilio i sut y gall deunyddiau ychwanegol gael eu casglu a'u prosesu wrth ystyried unrhyw newid arall i'r trefniadau casglu.

**Nodyn**

- Nodir bod hyn yn benderfyniad hir dymor ac ei fod yn annhebygol y gall unrhyw newid i'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu ar y ddaear ddigwydd am tua 3mlynedd wedi i benderfyniad gael ei gymryd. Mae hyn oherwydd bod angen cwblhau cais am arian cyfalaf, creu dyluniadau cysyniad a manwl ar gyfer uwchraddio isadeiledd canolfannau ailgylchu a gwastraff, ceisio a derbyn caniatâd cynllunio, gwaith adeiladu, a cymeradwyo trwyddedau. Bydd hefyd angen a pwrcasu a dosbarthu cynwysyddion ailgylchu/ gwastraff a cherbydau ychwanegol i'r fflyd gan y disgwylir i'r tunelli sy'n cael eu casglu ar y stepen drws gynyddu wrth i gyfaint wythnosol y bin du leihau. Er bod modd cyflwyno symud cardfwrdd i gael ei gasglu gyda phapur ynghynt, mae WRAP Cymru yn argymell gwneud yr holl newidiadau sy'n ynghlwm ar newid i'r gwasanaeth yr un pryd gan bydd yn lleihau risg o fethu ymdopi gyda'r ailgylchu ychwanegol (cerbydau a prosesu) ac yn hwyluso'r newid i'r cwsmer drwy gael un cynllun cyfathrebu clir.

- O ran cytundebau, mi fyddai angen cytuno amrywiad i'r cytundeb casglu gyda'r contractwr ac ystyried effeithiau ariannol ar y cytundeb gyda Parc Adfer, gan fod yno isafswm pris o fewn y gytundeb hynny a gall lleihau y cyfaint o wastraff gweddilliol sy'n mynd yno olygu bod y Cyngor yn talu mwy am waredu o llai. Mae'r cytundeb casglu cyfredol yn dod i ben 31/03/2029 ond mae opsiwn i ymestyn y cytundeb hynny am hyd at 8mlynedd ychwanegol. Barn Swyddogion yw fod yn hanfodol sicrhau bod cytundeb cadarn a sefydlog ar waith am gyfnod cyn, yn ystod ac wedi cyflwyno unrhyw newid i'r trefniadau casglu. Byddai ceisio caffael cytundeb newydd ar yr un pryd a chyflwyno newidiadau yn risg sylweddol i barhad busnes casgliadau gwastraff.

## 2. Asesiadau effaith

a. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☒Do
☐Naddo

| Os naddo, eglurwch pam: |
|---|

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

*Mae effaith bosib wedi ei adnabod Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*

Gall newid ffurf y trolibocs gael effaith cadarnhaol ar rhai gyda anableddau gan bydd ddim angen iddynt wahaniaethu rhwng papur a chardfwrdd. Yn yr un modd byddai biniau llai yn haws i rhai gydag anableddau neu sy'n feichiog allu symud. Fodd bynnag, gall cyflwyno cynhwysydd ychwanegol gael effaith negyddol ar y grwpiau hyn gan bod gall y cynhwysydd fod yn drwm. Lle'n gymwys, gall lliniaru'r effaith hyn drwy danysgrifio i'r gwasanaeth cymorth casglu.

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

*Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*

Nid oes unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg wedi ei adnabod.

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

*Crynhowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.*

Dim effaith wedi ei adnabod.

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Positif / Niwtral / Negyddol a sut

Mae'n cael ei ragweld y bydd effaith positif gan bydd y cyfradd ailgylchu'n debygol o gynyddu'n sylweddol.

## 8 Goblygiadau ariannol

Bydd gwaith modelu ariannol mwy manwl yn cael ei baratoi yn y cam Achos Busnes Amlinellol ond mae'n cael ei rhagweld y bydd angen buddsoddiad ariannol o tua £24m os am wireddu'r newid. Fel a nodwyd, mae cadarnhau bwriad i gyflwyno'r newid yn dangos i Llywodraeth Cymru bod ymrwymiad i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%, sydd yn ei hun yn rhoi cyfle i rhoi cais i Llywodraeth Cymru am gyllid sylweddol. Ar sail y cyllideb oedd y Llywodraeth Cymru blaenorol yn ddatgan, byddai Llywodraeth Cymru yn cyllido oddeutu £14.4m a'r Cyngor yn cyllido oddeutu £9.6m o'r £24m.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd angen buddsoddi rhwng £10m a £12m er mwyn cadw canolfannau prosesu gwastraff y Cyngor i weithredu'n effeithiol dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn er mwyn diweddaru cydrannau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac i ymateb i Anghenion Deddfwriaethol newydd. Byddai bwrw ymlaen gyda'r argymhelliad yn cynnig cyfle

am arian grant sylweddol tuag at y gwaith yma o ddiogelu busnes fel arfer. Nid yw y grant ar gael oni bai y bydd y Cyngor yn gallu dangos llwybr clir i gyrraedd y targed ailgylchu o 70%.

Derbyniwyd incwm EPR o £2.282m yn 2025/26 a disgwylir y bydd y Cyngor yn parhau i dderbyn arian EPR ar raddfa tebyg dros y 5 mlynedd nesaf. Os felly, arian sylweddol wrth gefn i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol mewn perthynas a unrhyw grant gan Llywodraeth Cymru neu i'r Cyngor fuddsoddi yn ei safleoedd gwastraff pe bai grant ddim yn cael ei dderbyn.

## 9 Atodiadau

1. Adroddiad Canlyniad yr Ymgynghoriad
2. Asesiad Effaith

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Lois Jones, Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff & Julie Jones, Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff & Eiddo

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 Cynllun-y-Cyngor-2023-i-2028.pdf
Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024 i 2029 Cynllun-Strategol-Adnoddau-a-Gwastraff-2024-i-2029.pdf
Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith Rhagfyr 2025 ar Ymgynghoriad Casglu ac Ailgylchu Gwastraff Ymgynghoriad Casglu ac Ailgylchu Gwastraff.pdf
Adroddiad modelu WRAP Cymru Hydref 2022 Adroddiad Modelu WRAP Cymru Hydref 2022 (Saesneg yn unig).pdf
Wales National Waste Composition Initial Results – Medi 2022 Wales National Waste Composition Initial Result- Medi 2022 (Saesneg yn unig).pdf
Isle of Anglesey Container Trial Evaluation Report – Gorffennaf 2024 Isle of Anglesey Container Trial Evaluation Report- Gorffennaf 2024 (Saesneg yn Unig).pdf
Review of Waste Management Infrastructure in Anglesey – Hydref 2024 Review of Waste Management Infrastructure in Anglesey- Hydref 2024 (Saesneg yn unig).pdf
Cais ISPA – Ionawr 2026 Cais ISPA- Ionawr 2026 (Saesneg yn unig).pdf
Infograffeg cyfansoddiad bin gweddilliol Ynys Môn Infograffeg cyfansoddiad bin gweddillion Ynys Mon.pdf